# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 21 Ionawr 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Tlodi Plant yng Nghymru

**C11 Ann Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch y camau a gymerir i ddileu tlodi plant yng Nghymru? (OAQ21639)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae nifer o raglenni Llywodraeth y Cynulliad yn ategu mentrau San Steffan i fynd i'r afael â thlodi plant. Mae'r rhain yn cynnwys, yn benodol, Cymorth, cronfa partneriaeth plant a phobl ifanc a Cymunedau yn Gyntaf. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dod â'r rhain, a mesurau eraill, at ei gilydd mewn strategaeth gwrth-dlodi i blant eleni.

### Blaenoriaethau'r Cabinet

**C12 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch blaenoriaethau ei Gabinet ar gyfer y tri mis nesaf? (OAQ21631)

**Y Prif Weinidog:** Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cenedlaethol Cymru am y tri mis nesaf wedi'u dynodi'n glir yn y ddogfen 'Cynllun i Gymru 2001'. I roi dim ond ychydig o esiamplau penodol, yn ychwanegol i'r rhai a nodais eisoes y prynhawn yma, byddwn yn

- amlinellu strategaeth diogelwch ar y ffyrdd ar ddydd Iau yr wythnos hon;
- cyhoeddi cyfres o fentrau grantiau trafnidiaeth erbyn diwedd y mis hwn;
- lansio ein cynllun gweithredu arloesedd ar 4 Chwefror;
- gweld adeiladu Amgueddfa Forwrol Cenedlaethol yn Abertawe, gyda'r seremoni torri-tywarchen yn digwydd ar 10 Chwefror; a
- cadw momentwm y Llywodraeth hyd ddiwedd y sesiwn, drwy groesawu'r gynhadledd TeleRegions i Gaerdydd rhwng 26 a 28 Mawrth, a chadeirio'r achlysur.

### Aelodaeth o'r Gymuned Ewropeaidd

**C13 Peter Black:** Sut mae'r Prif Weinidog yn hyrwyddo manteision bod yn aelod o'r Gymuned Ewropeaidd yng Nghymru? (OAQ21642)

**Y Prif Weinidog:** Tynnaf sylw at fanteision bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd pryd bynnag y daw'r cyfle, yn enwedig pan, er enghraifft, y byddaf yn ymweld neu yn agor prosiectau sy'n derbyn cefnogaeth drwy'r cronfeydd strwythurol. Mae Ewrop yn cyffwrdd â llawer o'r gwaith a gyflawnir gan Lywodraeth y Cynulliad, a phan fo'r achlysur yn codi, mae fy nghyd-Weinidogion hefyd yn hyrwyddo manteision bod yn aelod o'r UE.

### Safonau Addysg yng Nghaerdydd

**C14 Jonathan Morgan:** Sut mae polisïau'r Llywodraeth yn ymdrin â safonau addysg yng Nghaerdydd? (OAQ21635)

**Y Prif Weinidog:** Anelir ein polisïau at godi safonau yn gyffredinol—ac ym mhob rhan o Gymru. Mae'r strategaethau llythrennedd a rhifogrwydd llwyddiannus yr un mor berthnasol i Gaerdydd ag i unman arall,

fel ein strategaeth cyfnod allweddol 3. Yr ydym hefyd yn darparu cymorth i bob awdurdod addysg lleol yng Nghymru i godi safonau drwy grantiau am gymorth addysg ac hyfforddiant.

### Hyrwyddo Eisteddfod Genedlaethol Cymru

**C15 David Melding:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch y camau a gymerir i hyrwyddo Eisteddfod Genedlaethol Cymru? (OAQ21641)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyfrannu at ariannu Eisteddfod Genedlaethol Cymru drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a bydd yn parhau i gefnogi'r eisteddfod genedlaethol, gan ei fod yn ddigwyddiad celfyddydol allweddol i fywyd Cymru. Mae Bwrdd Croeso Cymru yn hyrwyddo'r eisteddfod ac yn ymchwilio ar hyn o bryd sut i'w farchnata orau fel rhan o strategaeth dwristiaeth celfyddydol Bwrdd Croeso Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi ymrwymo, yn 'Creative Future: Cymru Greadigol', i gynnal adolygiad o wyliau yn gyffredinol, er mwyn ei helpu i ddod yn fwy cynaliadwy.